

## Plas Tan Y Bwlch

Cyrhaeddais yr ysgol wedi cynhyrfu yn lan. Roedd pawb yn edrych ymlaen i fynd i Blas Tan y Bwlch. O'r dosbarth i gyd, gen i oedd y bag mwyaf. Roedd Charlie yn meddwl fy mod l'n mynd am flwyddyn oherwydd maint fy mag . Diolch byth, roedd Lleucu a Ffion wedi dod a bag gweddol fawr hefyd a roedden nhw'n deall y buaswn angen y dillad gan fy mod yn meddwl fy mod yn mynd i faeddu yn ofnadwy ac yn mynd i wlychu yn fawr iawn hefyd.

Cyrrhaeddodd dau fws mini, un i ddal ein bagiau ac un arall i'n cludo ni. Ar y ffordd roedd pawb yn sgwrsio'n braf ac wedi cyffroi. Doedd y daith ddim yn hir iawn gan fod pawb yn edrych ymlaen gymaint .

Pan gyrhaeddom y Plas roedd hi tua deg or gloch ac roedd pawb eisiau ymestyn eu coesau ar ol bod yn bws. Aethom i'r theatr i wrando ar Mr a Mrs Roberts yn siarad am y Wladfa. Gwelsom lawer o luniau difyr iawn o'r tir a'r bobl oedd yn byw ym Mhatagonia. Sylweddolais nad yw Patagonia yn wlad mor ffodus a'n gwlad ni ac eu bod yn gorfod ail ddefnyddio llawer o bethau yno e.e defnydd a phapur ac yn bod rhaid i'r bobl drwsio eu ceir eu hunain. Roedd dynes wedi gwnio brat i Mrs Roberts ac fe gafodd Abi ei wisgo.

Ar ddiwrnod poeth ym Mhatagonia bydd grwpiau o bobl yn mynd i eistedd mewn afon ac yfed rhyw fath o de mewn cwpan o'r enw mate ac yn ei basio o un person i'r llall. Daeth Mr a Mrs Roberts ag un o'r mates gyda hwy ond yn anffodus doedd dim byd ynddo.

Cyn brifathrawon yn y Bala oedd Mr a Mrs Roberts a buont yn dysgu mewn ysgol ym Mhatagonia. Tra oeddent yno fe wnaethont grefftiau gyda'r plant. Fe ddaethont a rhai ohonynt efo hwy a roeddwn yn gallu gweld nad oedd yna lawer o ddefnyddiau yn y crefftiau oherwydd fod y wlad yn dlawd. Hefyd, yn yr ysgol roedd y plant yn cael clwb dawnsio gwerin.

Daeth dwy ferch, Ariela a Judith, efo Mr a Mrs Roberts o Batagonia. Cawsom glywed hwy yn siarad Sbaeneg. Fe wnaethont ddysgu ychydig o eiriau Sbaeneg i ni. Roedd y ddwy ferch yn athrawon mewn ysgol ym Mhatagonia. Ar y diwedd roedd rhai plant yn cael gofyn cwestiynau a dyma rai ohonynt : Ydi papur newydd Patagonia 'Y Draford ' dal i fynd? Ateb : Ydi ond mae yna bapurau gwahanol eraill yn cael eu gwerthu hefyd. Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg?

Ar ol y cyflwyniad gwych fe aethom i gael cinio. Roedd yna ddau fwrdd i ni gyda wyth set wrth pob un ac roedd pawb yn cael dewis lle i eistedd a dewis ein bwyd. Roedd pawb yn cael tatw drwy chroen gyda unai thiwna, ffa pob neu gaws. Fy newis i oedd caws a tiwna. Roedd o'n fendigedig ac roeddwn i wedi bwyta popeth ar y blat ac yn llawn dop.

Ar ol cael llond bol o fwyd aethom lawr i'r stablau i newid i ddillad cynnes. Aethom i fewn i'r bws mini ac i ffwrdd a ni am Gastell Harlech. Roedd yna oleuadau traffig ar y ffordd felly roedd hi'n cymeryd ychydig hirach i gyrraedd yno. Doeddem ni ddim yn gallu parcio y bws mini ym maes parcio y Castell oherwydd roedd yna adeiladwyr yn adeiladu mynediad newydd. Felly roedd yn rhaid i ni gerdded am ychydig i gyrraedd yno.

Unwaith y cyrhaeddom ni'r castell fe wnaeth Ann, y ddynes oedd yn tywys ni o amgylch ddweud fod yna ddrain yn rhwystro y gelynyon rhag ymosod yn yr hen amser. Fe ddarganfyddom mai Edward y Cyntaf wnaeth adeiladu y castell. Roedd yna le tan ym mhob ystafell y pobl bwysig e.e yn ystafell y brenin a'r frenhines.

Yn amser Harri'r pedwerydd fe gipiodd Owain Glyndwr Gastell Harlech. Cyn i Harri'r pumed gael ei goroni'n frenin fe ymosododd ar Gastell Harlech a chafodd gwraig a llawer o deulu Glyndwr eu carcharu ganddo. Daeth dyn oedd yn gweithio yn y castell i siarad gyda ni ac fe gawsom ofyn cwestiynau iddo.

Aethom yn ol i'r Plas ac fe gawsom weld ein hystafelloedd. A dweud y gwir roedd ein hystafell ni yn fawr i gymharu ag un Abi, Elin a Donna. Roeddwn i wedi fy mhlesio gyda fy ystafell ac yn edrych ymlaen i gael noson dda o gwsg. Wel, fe wnaethom siarad gymaint nes i ni sylweddoli fod hi yn hwyrach nag arfer arnom yn mynd i'n gwla. Ond drwyddi draw, fe wnes i gael noson dda o gwsg.

Codais am hanner awr wedi saith ac fe aethom i gael brechwast. Unwaith eto, roedd pawb yn cael dewis lle i eistedd. I ddechrau fe gymerais goco pops ac fe wnes i eu mwynhau yn fawr iawn. Yna cawsom facwn a selsig gyda ffa pob, tost a menyn ac roedd o yn hyfryd.

Aethom i'r stablau i wisgo dillad cynnes gan ein bod yn mynd i'r Ysgwrn. A dweud y gwir, mynd i'r Ysgwrn oedd yr hoff beth a wnes in ym Mhlas Tan Y Bwlch. Roeddwn wedi gwirioni yn lan oherwydd roedd yna hen fachgen yno ac hebdo fyddai y lle ddim yr un fath. Roedd yr hen wr yn siarad am y gegin ac y pethau yr oeddent yn eu defnyddio yno yng nghyfnod Hedd Wyn. Cawsom eistedd yn un o gadeiriau Hedd Wyn ond wrth gwrs toedd neb yn cael eistedd yn y Gadair Ddu gan nad oedd hyd yn oed Hedd Wyn ei hyn ddim wedi cael eistedd ynddi.

Adroddom englyn i Hedd Wyn gan Alan Llwyd :

**Ei aberth nid â heibio- ei wyneb**

**Annwyl nid â'n ango**

**Er i'r Almaen ystaenio**

**Ei ddwrn dur yn ei waed oer.**

Cefais brofiad a hanner yn yr Ysgwrn ac mwynhaeis fy hun yn fawr iawn.

Yn y Plas cawsom ginio o frechdanau, creision a chacen siocled. Roedd pawb yn siarad braidd yn uchel wrth y bwrdd bwyd a bu raid i ni

ddistewi er ei bod yn hwyl sgwrsio gyda fy ffrindiau.

Fe roddodd Ann holiadur i ni i'w lenwi ac roedd rhaid mynd o amgylch y Plas i chwilio am yr atebion. Roedd cyfarfod yn y llyfrgell felly nid oedd yn bosib mynd yno i chwilio am atebion a bu rhaid gadael rhai cwestiynau yn wag. Fe wnes i fwynhau gwneud yr holiadur oherwydd ei fod yn hwyl chwilio am yr atebion mewn gwahanol ystafelloedd.

Yn siomedig fe aeth pawb i mewn i'r bws mini ac i ffwrdd a ni am yr ysgol. Roedd rhan fwyaf o'r plant yn siarad ar y ffordd ac yn edrych allan ar yr olygfa. Roedd y daith yn hirach ar y ffordd yn ol oherwydd roedd pawb yn siomedig ein bod yn gorfod gadael y Plas.

Wel, fe wnes i gael amser bendigedig ym Mhlas Tan Y Bwlch ac rwy'n falch fy mod wedi mynd oherwydd fod Nain yn brolio y lle gymaint. Roeddwn eisiau mynd i'w weld hefo llygaid fy hun. Nawr gallwn ddweud wrth Nain fy mod i yn cytuno fod yn lle yn wych !

**Cadi Prytherch Davies Blwyddyn 6**